**Taith Dewi Sant – rhai sylwadau gan aelod o'r tîm**

Bellach mae dros dair wythnos wedi mynd heibio er pan gyrhaeddais i a thîm o saith dyn arall garreg eich drws (yn llythrennol, mewn rhai achosion) gyda'n paciau a'n hesgidiau cerdded fel rhan o Daith Dewi Sant. Rydw i wedi bod yn aelod o sawl cenhadaeth ac y mae i bob un ohonynt ei chymeriad ei hun; y genhadaeth hon oedd fy mhrofiad cyntaf o fywyd pentref yng nghefn gwlad Cymru. Bu'n wythnos gofiadwy ar lawer ystyr – cael y cyfle i gyfarfod nifer ohonoch yn eich eglwysi a'ch cartrefi, mwynhau tywydd braf a heulog a olygodd ein bod yn gallu mynd allan a gwerthfawrogi harddwch naturiol y wlad o amgylch, dysgu ychydig am yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, ac wythnos lawn iawn o gwrdd â phobl o bob oedran mewn gwahanol sefyllfaoedd. Fy mhrofiad i yw bod amser fel petai'n ymestyn ar adegau fel hyn, ac mae wythnos o genhadaeth yn ymddangos fel pythefnos, gan mor gyfoethog y profiadau a ddaw i'm rhan.

Felly, beth alla i ei ddweud wrth edrych yn ôl ar yr wythnos a dreuliwyd gyda chi? Wel, rydw i'n gobeithio bod y misoedd o gynllunio a dyfalu ymlaen llaw pa fath o bobl fyddai'n aelodau o dimau Taith Dewi Sant wedi arwain at gyfeillgarwch cynnes wedi i chi ein cyfarfod. Roeddem yn dod o wahanol rannau o Brydain, o Ynysoedd Erch i Dorset, o Ddwyrain Anglia i Eryri – rhai ohonom yn wŷr priod ac yn dadau, eraill yn ddynion sengl. Roedd ein cefndir crefyddol yn amrywiol (a dweud y gwir, nid wyf yn gwybod beth oedd cefndir crefyddol rhai o'r aelodau eraill; wrth ganolbwyntio ar genhadaeth ac undod yr efengyl, doedd hynny ddim yn bwysig, rywsut). Yn ein plith yr oedd ffermwr oedd bellach yn rheolwr canolfan encil, crefftwr, dyn busnes, glanhawr, saer, gweinidog, a dau beiriannydd, ac roedd ein diddordebau'n amrywio o gaeau chwarae artiffisial i seryddiaeth, o actio i archeoleg. Roeddem hefyd yn ffodus fod dau aelod o'r tîm yn siarad Cymraeg; roedd hyn yn ddefnyddiol iawn wrth sgwrsio o ddrws i ddrws ac mewn sefyllfaoedd eraill, a hefyd yn ffordd o gyflwyno materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg i aelodau eraill y tîm.

Yn ystod rhan gyntaf yr wythnos roeddem yn aros yn festri Capel y Garn, Bow Street, yn gwersylla yno yn ein sachau cysgu gan fwynhau moethusrwydd anarferol (i rai ar genhadaeth o'r fath) gwres canolog a chegin gyfleus. Nid bod angen i ni goginio rhyw lawer gan i ni fwynhau darpariaeth helaeth o brydau bwyd poeth ac oer, cynigion caredig i gael swper a chawod yn eich cartrefi gyda'r nos. Yn ail hanner yr wythnos roeddem yn aros yn festri Capel Horeb, Penrhyn-coch – â'r rhai hynny ohonom nad oedd yn chwyrnu yn cadw'n ddigon pell yn y capel ei hun! Yn ystod y nosweithiau clir yno cawsom gyfle gwych i ryfeddu at y sêr niferus yn yr awyr – profiad dieithr iawn i'r rhai ohonom a fagwyd mewn trefi a dinasoedd.

Roedd Wyn a Judith, ynghyd ag arweinyddion yr eglwysi, wedi paratoi wythnos lawn o weithgareddau ar ein cyfer yn y gymuned leol, ac roeddem yn hynod falch o weld rhai ohonoch yn ymuno â ni ar yr achlysuron hyn. Cawsom gynifer o gyfleoedd – ymweld â'r henoed mewn boreau coffi, ciniawau ac mewn cartrefi i'r henoed; plant yr ysgolion cynradd ac amrywiol glybiau; gwasanaethau diolchgarwch; cwrdd chwiorydd; canolfannau i drin rhai sy'n gaeth i gyffuriau ac ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu; tafarndai lleol a chanolfannau ymchwil, ac yn y blaen. Yn fwyaf arbennig, cawsom gyfle i guro ar gannoedd o ddrysau a chyfarfod â llawer o bobl yn Bow Street, Penrhyn-coch, Tal-y-bont a Thaliesin, yn ogystal â Llandre, Capel Bangor a

phentrefi eraill. Yn yr ardaloedd hyn i gyd, fe geisiodd aelodau'r tîm, yn eu ffordd eu hunain, gyfleu beth yw ystyr adnabod Iesu a gofyn iddo fod wrth galon yr hyn sy'n bwysig yn ein bywydau. Dosbarthwyd rhai cannoedd o lyfrynnau gennym, yn sôn am neges yr efengyl, ac fe'n calonogwyd wrth i nifer o bobl gymryd camau mewn ffydd ac ymrwymiad mewn oedfaon ac yn ystod yr wythnos.

Tasg amhosib yw ceisio crynhoi'r holl weithgareddau hyn, yn enwedig gan fod pob un ohonom yn ymwneud â phethau gwahanol yn ystod yr wythnos. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys cwrdd â rhai unigolion, yn ogystal â chyfarfodydd a gweithgareddau mwy cyffredinol. Roedd rhai pobl neu ddigwyddiadau arwyddocaol neu arbennig o fendithiol, ac er nad oedd y rhain yn arbennig o ddramatig, fe hoffwn rannu gyda chi rai enghreifftiau o brofiadau a gefais i, er mwyn i chi gael syniad o rai o'r pethau a ddigwyddodd yn ystod yr wythnos, a hefyd fel y gallwch weddïo y bydd Duw yn parhau i weithio drwy gyfarfyddiadau fel y rhain, yn ogystal â'ch ymdrechion chi i barhau â'r gwaith:

- Roedd un wraig wedi bod yn weithgar gyda'r mudiad Cristnogol pan oedd yn fyfyrwraig, ond wedi cael ei brifo gan rai o'r gwendidau a welsai yn un o'r arweinyddion; fe wnaethom ei hannog i beidio â gadael i hyn barhau i fod yn rhwystr iddi.
- Atebodd un gŵr ifanc y cwestiynau yn ein holiadur ond nid oedd yn ymddangos fel petai ganddo lawer o ddiddordeb. Ond pan ofynnwyd iddo a oedd wedi darllen unrhyw ran o'r Testament Newydd yn ddiweddar, dywedodd wrthym am aros. Daeth yn ei ôl ar ei union gyda chopi modern o'r Beibl, a gofyn inni sut ddylai fynd ati i'w ddarllen!
- Dywedodd un gŵr oedrannus wrthym ei fod wedi darllen y Beibl cyfan ddwywaith yn ystod y pum mlynedd diwethaf. (Does dim llawer o Gristnogion wedi gwneud hynny!) Fe wnaethom ei annog i geisio perthynas bersonol â Duw.
- Daethom ar draws dwy wraig oedd â diddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth am Gristnogaeth, ac a oedd hyd yn oed wedi mynychu cwrs Alffa ac wedi darllen y llyfrau a roddwyd iddynt, er nad oedd yr un ohonynt wedi'i hargyhoeddi. Serch hynny, nid oeddent yn diystyru trafodaeth bellach ac yr oedd o leiaf un ohonynt yn ffrind agos i Gristion gweithredol.
- Roedd gan nifer o bobl ffrindiau oedd yn Gristnogion, ffrindiau roeddent yn eu hoffi a'u parchu, ac wedi bod yn trafod gyda hwy yn y gorffennol. Teimlem y gallai'r ffrindiau hyn barhau i fod yn bersonau cyswllt pwysig iddynt.
- Cawsom wahoddiad i gartref un wraig oedd newydd symud i'r ardal, a chais am wybodaeth am eglwys Saesneg y gallai ei mynychu.
- Yn un o'r tafarndai, roedd trafodaeth fywiog yn digwydd yn gyhoeddus; ond yn dawel, a heb i'r rhan fwyaf o'i ffrindiau sylwi, gofynnodd un gŵr ifanc am weddi ar gyfer ei amgylchiadau personol ac roedd yn falch o dderbyn llyfryn gennym.
- Dywedodd un wraig wrthym ei bod yn dioddef o salwch difrifol, ac er nad oedd yn arbennig o grefyddol, roedd yn fodlon inni weddïo drosti ar garreg y drws.
- Mewn bore coffi, roeddem yn sgwrsio'n gyffredinol gyda nifer o wragedd, ac yna datblygodd y sgwrs yn drafodaeth ysbrydol ar yr angen i weithredu'r hyn rydym yn ei bregethu, a thrwy hynny ddangos neges Iesu yn eglur.

Er mai byr oedd ein harhosiad ac mai cipolwg sydyn a gawsom ar yr hyn sy'n digwydd yma fel arfer, hoffwn gynnig rhai sylwadau ynghylch fy ymweliad. Wrth fynd ar genhadaeth i wahanol rannau o Brydain, rydym yn dod ar draws pobl sy'n coleddu ystod eang o safbwyntiau ac agweddau ysbrydol, ond yn aml iawn maent yn cadarnhau'r gwirionedd trist nad yw'r rhan fwyaf o'r trigolion bellach yn arddel nac yn dilyn y ffydd Gristnogol i'r un graddau o bell ffordd ag yr arferid ei wneud rai degawdau yn ôl. Mae llai o barch tuag at yr eglwys, ei hawdurdod a'i pherthnasedd i'w bywyd, ac roedd hyn yn amlwg yma yn eich cymunedau chithau hefyd. Bob dydd roedd hi'n amlwg nad yw pobl bellach yn sicr nac yn hyderus mewn materion sy'n ymwneud â'r ysbrydol neu â ffydd, am natur Iesu neu fywyd ar ôl marw; yn wir, roeddent yn amheus o sicrwydd crefyddol ac yn ei ystyried fel rhywbeth nad oedd bellach yn bosib nac yn briodol yn ein hoes ni. Doedd gan lawer ohonynt ddim diddoreb mewn Duw, na llawer o awydd i dreulio amser nac ymdrech yn ystyried y pethau hyn gan eu bod mor brysur yn byw eu bywydau materol o ddydd i ddydd.

Serch hynny, cawsom groeso cynnes a chwrtais, hyd yn oed gan y rhai nad oedd yn rhannu ein gweledigaeth, ac fe gawsom ein hatgoffa yn aml fod llawer o bobl, yn enwedig o blith y genhedlaeth hŷn, wedi cael profiad o addysg feiblaidd. Fel mewn rhannau eraill o Brydain, fe welsom yma ddiffyg dealltwriaeth eang ac angen dwfn am ddeffroad ysbrydol, ond efallai fod y diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth Gristnogol hyn yn gyfle mewn gwirionedd gan nad oedd yn cynnwys elfen o siniciaeth neu wrthod y ffydd. Fe wnaethon ni gyfarfod nifer o bobl a oedd yn awyddus i glywed beth oedd gennym i'w ddweud, ac a fyddai, yn fy marn i, yn barod i ystyried hyn ymhellach dan yr amgylchiadau cywir. Credaf fod yna gyfle gwirioneddol o hyd i ddenu a chyflwyno pobl fel y rhain i ffydd yn Nuw wrth iddynt gyfarfod rhai sy'n cadw gwirioneddau'r ffydd Gristnogol yn eglur yn eu calonnau a'u meddyliau, Cristnogion sy'n byw bywydau deniadol, cywir, yn llawn o gariad Duw, yn rhan o gymdeithas groesawgar a hael o gredinwyr sy'n cael ei hystyried yn gymdeithas agored a pherthnasol i'r byd cyfoes.

Felly, credaf fod yna her a chyfle i unigolion a'r eglwysi, ond mae'n her y gellir ei chyflawni, yn enwedig lle mae yna ewyllys a pharodrwydd i edrych o'r newydd ar rai o'r ffyrdd rydym yn eu defnyddio i'n cyflwyno ein hunain ac yn gweithredu yn yr eglwysi, er efallai y gallai hyn olygu gwneud pethau mewn ffordd ychydig yn wahanol ar brydiau. Fe'm trawyd ar y naill law gan yr ymagwedd barchus ac addolgar a gafwyd yn y gwasanaethau crefyddol a fynychwyd gennym, ond fe glywais hefyd am gynlluniau newydd a gwahanol i geisio cyrraedd at bobl nad ydynt yn perthyn i'r eglwysi. Yn ystod wythnos y genhadaeth, fe ddaethom ar draws gwahanol fathau o bobl o fewn y gymuned ac efallai y bydd angen darparu ar eu gyfer mewn amrywiol ffyrdd, er enghraifft:

- Teuluoedd neu unigolion ifanc sy'n gweithio, y byddai'n well ganddynt glywed am y bywyd a'r gwirionedd Cristnogol mewn sefyllfa fodern neu gyfoes, ac wedi'u mynegi mewn ffyrdd mwy deniadol iddynt a thrwy gyfrwng gweithgareddau priodol.
- Unigolion sy'n amheuwyr ond yn weddol agored eu hagwedd a allai fod â diddordeb mewn digwyddiadau sy'n archwilio Cristnogaeth os cânt eu cyflwyno mewn dulliau cyfoes neu gan unigolion sy'n dangos eu perthnasedd i fywyd cyfoes.

- Pobl oedrannus, sydd yn aml wedi'u heffeithio gan brofiadau bywyd, megis profedigaeth, salwch ac unigrwydd, a fyddai efallai'n gwerthfawrogi digwyddiadau traddodiadol yn y gymuned, gweinidogaeth fugeiliol, ambell ymweliad gan dîm ymweld lleyg, etc
- Nifer o bobl a fu â chysylltiad ag eglwys neu gapel lleol yn y gorffennol, ond nad oeddent bellach yn mynychu, ond a allai, trwy gyswllt personol, gael eu hannog i fod â ffydd weithredol unwaith eto.
- Pobl o sawl ffrwd wahanol o fewn y ffydd Gristnogol neu o ran iaith, a fyddai'n elwa o weithgareddau pontio i'w dwyn ynghyd ac mewn rhai achosion i wella clwyfau sy'n deillio o wahaniaethau yn y gorffennol neu'r presennol.

Bydd y pethau hyn i gyd yn gyfarwydd i unrhyw un sydd wedi gweithio yn y weinidogaeth fugeiliol, wrth gwrs, ond teimlaf fod yn rhaid i bob aelod eglwysig ymwneud â hwy os ydym am sicrhau llwyddiant. Cyfeiriais yn gynharach at y ffaith ein bod wedi ymgymryd â'r genhadaeth hon mewn partneriaeth gyda chi, ac fe'n calonogwyd gan y ffaith fod rhai ohonoch wedi cymryd rhan yn y gwaith o guro ar ddrysau ac mewn digwyddiadau eraill. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r timau cenhadol a'n partneriaid gweddi wedi ymuno â ni yn dilyn y profiad o weld cenhadaeth yn eu hardaloedd eu hunain, ac roeddem yn falch o ddeall bod rhai ohonoch wedi mynegi diddordeb yn y genhadaeth yn Dorset y flwyddyn nesaf. Gwn y byddai arweinwyr Through Faith Missions yn falch iawn o glywed gan unrhyw un fyddai â diddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth, ac mae croeso i chi gysylltu â nhw neu ag un o aelodau'r tîm.

Cyn terfynu, hoffwn fynegi ein diolch unwaith eto i chi i gyd am eich croeso twymgalon a'r haelioni a ddangoswyd tuag atom. Roedd yn bleser eich cyfarfod a chydweithio â chi, a gobeithiaf y cawn gyfle i gwrdd eto yn y dyfodol, boed fel ymwelwyr â'r ardal neu mewn ymgyrch Gristnogol arall yn y dyfodol.

Boed i Dduw eich bendithio'n hael!

Richard Winski
Tîm W103

(Hydref 2010)